

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cliciwch ar y penawdau i weld canllaw cyffredinol neu ganllaw ar yr adran gydag enghraifft. Fe welwch wybodaeth ategol yn yr atodiadau ar ddiwedd y canllaw.

Pan ddechreuwch asesu eich cynnig, trefnwch gyfarfod â Tim Greaves, Cydlynnydd Cydraddoldeb, am arweiniad penodol. Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau ato am wiriad terfynol fel y gall ei chyhoeddi ar wefannau cydraddoldeb Bro Morgannwg.

Cysylltwch â Tim Greaves hefyd os oes angen y ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hon arnoch mewn fformat gwahanol.

1. Beth rydych chi'n asesu?

Tynnu arian yn ôl ar gyfer gwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau

2. Pwy sy'n gyfrifol?

Enw	Kyle Phillips	Teitl swydd	Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Trafnidiaeth
Tim	GCaTh	Cyfarwyddiaeth	Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai

3. Pryd bydd yr asesiad yn cael ei gynnal?

Dyddiad dechrau'r asesiad	27 ^{ain} Rhagfyr 2018
----------------------------------	--------------------------------

4. Disgrifiwch y cynnig.

Beth yw diben y cynnig?

Rhoi'r gorau i ariannu gwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau, a ddarperir yn ôl disgrisiwn y cyngor, a all gyfrannu oddeutu £185,000 i'r £1,000,000 o arbedion y mae angen i Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth eu gwneud yn y flwyddyn ariannol 2019/20.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Pam fod angen ei weithredu?

Sicrhau'r arbediad fel y crybwyllwyd uchod a hyrwyddo Bro egniol ac iach drwy annog mwy o ddisgyblion i gerdded i'r ysgol.

Oes angen i ni ymrwymo adnoddau sylweddol iddo (megis arian neu amser staff)?

Bydd adnoddau presennol y Tîm Gwasanaethau Trafnidiaeth yn gallu ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen i ymgynghori â rhanddeiliaid a chyfathrebu â hwy ynghylch y newid hwn a hyrwyddo teithio llesol i'r ysgolion yr effeithir arnynt ac oddi yno.

Beth yw'r canlyniadau y mae'r cynnig am eu cyflawni?

Tynnu cymorth ariannol yn ôl ar gyfer gwasanaethau trafndiaeth ysgol lle mae taliadau am docynnau.

Ar bwy mae'r cynnig yn effeithio?

Bydd tynnu'r cyllid hwn yn ôl yn gallu effeithio ar nifer o drigolion a chwmnïau bysiau ym Mro Morgannwg a'r cyffiniau. Mae'r cynnig hefyd yn effeithio ar nifer o ysgolion – prif ffrwd, cyfrwng Cymraeg, Catholig a'r Eglwys yng Nghymru.

Sylwer: Os yw'r cynnig yn effeithio ar bobl lesbiaidd, hoyw, cyfunrywiol neu drawsryweddol, sicrhewch eich bod yn cynnwys cyplau o'r un rhyw ac yn defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd.

A fydd y cynnig yn effeithio ar y ffordd y mae sefydliadau eraill yn gweithio?

Os bydd gweithredwyr bysiau'n gwneud y penderfyniad nad yw'r gwasanaethau hyn yn fasnachol hyfyw, gellid cael effaith ar yr ysgolion gwahanol gan gynyddu'r nifer sy'n cael eu cludo gan gerbydau a chynyddu'r cerbydau ar yr heol.

A fydd y cynnig yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn cyflawni gwasanaethau?

Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu trafndiaeth ysgol am ddim, fel swyddogaeth statudol, gyda gwasanaethau trafndiaeth ysgol lle mae taliadau am docynnau yn cael eu gweithredu gan gwmnïau bysiau sy'n ystyried bod hynny'n ymarferol yn fasnachol.

Fydd y cynnig yn effeithio ar bolisiau neu ymarferion eraill?

Dylid cael yr effaith leiaf bosibl ar bolisiau ac arferion eraill - ar wahân i'r problemau a nodwyd uchod ynghylch cynnydd mewn symudiadau traffig wrth giât yr ysgol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Allwch chi newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal ymhellach ac yn meithrin perthnasau da?

Gall y cynnig ond symud ymlaen a chyflawni ei amcanion os tynnir y cyllid yn ôl yn llawn. Gellir cynnal cysylltiadau da gyda gweithredwyr bysiau gan mai'r bwriad yw tynnu'r cyllid yn ôl o fis Medi 2019 - bydd hyn yn golygu y bydd gweithredwyr bysiau yn gallu tendro am nifer o wasanaethau cludiant am ddim i'r ysgol fel rhan o dendr a gynhelir yn Ebrill/Mai 2019.

Sut fyddwch chi'n cyflawni'r newidiadau arfaethedig?

Hysbysu ysgolion, disgyblion a rhieni am y ffaith bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl, hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i sefydlu gwasanaethau bws a delir amdanynt sy'n ymarferol yn fasnachol (lle bo'n berthnasol).

Pwy fydd yn darparu'r cynnig?

Bydd y cynigion yn cael eu cyflawni gan y Cyngor.

Sut fyddwch chi'n gwybod a ydych wedi cyflawni diben y cynnig?

Bydd yr arbedion a nodir uchod yn cael eu cyflawni, bydd disgyblion yn trosglwyddo o ddefnyddwyr bysiau i ddisgyblion sy'n mynd ati i deithio i'r ysgol a bydd "porth" yr ysgol yn cael yr effaith leiaf bosibl gyda'r diffyg gwasanaethau bysiau lle mae taliadau am docynnau.

5. [Pa dystiolaeth ydych chi'n ei defnyddio?](#)

Ymgysylltiad (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Mae gweithredwyr bysiau sy'n ymgymryd â'r gwasanaethau hyn ar hyn o bryd wedi cael eu cynnwys er mwyn cael gwybod a fyddent yn gweithredu'r gwasanaethau hyn ar sail fasnachol (h.y. heb unrhyw gymorth ariannol gan y Cyngor).

Ymgynghori (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)

Data ac ymchwil cenedlaethol

Data ac ymchwil lleol

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd arolygon o'r gwasanaethau cludiant i'r ysgol lle mae taliadau am docynnau er mwyn gwybod faint o ddisgyblion/preswylwyr a allai gael eu heffeithio gan y ffaith bod y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl.

6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

A yw'n dangos beth fydd yr effaith (positif a negyddol)?

Negyddol o bosibl gyda 324 o ddisgyblion ysgol nad ydynt bellach yn gallu cael mynediad i wasanaeth bws lle mae taliadau am docynnau er mwyn cyrraedd yr ysgol.

Beth yw'r bylchau?

Colli gwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau

Beth fyddwch chi'n ei wneud am hyn?

Caniatáu i rymoedd y farchnad bennu a ellir rhedeg unrhyw un o'r gwasanaethau hyn ar sail fasnachol.

Pa ddata monitro fyddwch chi'n ei gasglu?

Dd/B

Pa mor aml fyddwch chi'n dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?

Dd/B

Lle fyddwch chi'n cyhoeddi data monitro ac adroddiadau?

Dd/B

7. Effaith

A fydd effaith?

Bydd – bydd colli gwasanaethau yn effeithio ar ddisgyblion, preswylwyr, ysgolion a gweithredwyr cludiant.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Os nad oes effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hyn? Rhowch dystiolaeth.

Os yw'n debygol y bydd effaith, beth fydd yr effaith honno?

Oed – bydd tynnu'r cyllid yn ôl ar gyfer y gwasanaethau hyn yn cael effaith ar blant oed ysgol (5 i 18 oed).

Anabledd – o bosib gyda rhai disgyblion sydd wedi cael cerdyn bws rhatach oherwydd anabledd yn methu â chael mynediad i wasanaeth bws i'r ysgol ac yn ôl.

Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd (sicrhau bod polisïau'n cynnwys cyplau o'r un rhyw yn glir a defnyddio iaith niwtral o ran rhyw) - anhysbys

Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu yn unig) - anhysbys

Beichiogrwydd a Mamolaeth - anhysbys.

Hil - anhysbys

Crefydd a chred – mae yna ostyngiad a nodwyd yng ngwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Fodd bynnag, darperir y gwasanaethau hyn yn ôl disgresiwn y Cyngor ac ni roddwyd yr un gwasanaethau i ysgolion eraill. Dylid nodi hefyd y bydd y disgyblion hyn yn byw o fewn pellter cerdded 3 milltir sy'n golygu nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim a bod ganddynt y potensial o ran teithio llesol i'r ysgol.

Rhyw - anhysbys

Cyfeiriadedd rhywiol (sicrhewch fod polisïau'n cynnwys cyplau o'r un rhyw ac yn defnyddio iaith niwtral o ran rhyw) - anhysbys.

Yr iaith Gymraeg – mae rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu hariannu yn teithio i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac felly gallai eu tynnu'n ôl effeithio ar fynediad. Dylid nodi hefyd y bydd y disgyblion hyn yn byw o fewn pellter cerdded 2 milltir sy'n golygu nad ydynt yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim a bod ganddynt y potensial o ran teithio llesol i'r ysgol.

Hawliau dynol - anhysbys

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Sut rydych chi'n gwybod?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Oed – bydd tynnu'r cyllid hwn yn ôl yn effeithio ar y gwasanaethau bws sydd ar gael i ddisgyblion ysgol (5 i 18 oed)

Anabledd – gallai tynnu'r cyllid hwn yn ôl effeithio ar y gwasanaethau bws sydd ar gael i'r disgyblion hynny sydd ag anableddau sy'n gymwys i gael pasys bws consesiynol.

Crefydd/Cred – byddai nifer o ysgolion eglwysig yn colli'r gwasanaethau bws sydd ar gael i ddisgyblion.

Yr Iaith Gymraeg - byddai nifer o wasanaethau bws sy'n gwasanaethu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu dirwyn i ben.

Beth gellir ei wneud i hyrwyddo effaith bositif?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Oed - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Anabledd - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Crefydd/Cred - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Yr Iaith Gymraeg - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Beth gellir ei wneud i leihau'r risg o effaith negyddol?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Oed - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Anabledd - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Crefydd/Cred - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Yr Iaith Gymraeg - hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno a gweithio gyda gweithredwyr bysiau i nodi unrhyw rai o'r gwasanaethau bws hyn a allai fod yn ymarferol yn fasnachol.

Oes angen triniaeth fwy ffafriol i gyflawni canlyniadau cyfartal? (Anableddau'n unig)

Na

A fydd yr effaith yn bositif, yn negyddol neu'n niwtral?

Eglurwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir a nodir uchod.

Oed – gallai diffyg gwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau gael effaith negyddol wrth i fynediad i addysg gael ei leihau. Fodd bynnag, gallai'r effaith ar y disgyblion hyn fod yn bositif gan y byddai'n annog pobl i deithio'n llesol i'r ysgol ac oddi yno a chreu Bro actif ac iach.

Anabledd – byddai diffyg gwasanaethau bws ar gyfer deiliaid cardiau teithio consesiynol yn cael effaith negyddol gan na fydd defnyddwyr yn gallu defnyddio'r bws i fynd i'r ysgol ac oddi yno.

Crefydd/Cred – gallai diffyg gwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau gael effaith negyddol wrth i fynediad i addysg gael ei leihau. Fodd bynnag, gallai'r effaith ar y disgyblion hyn fod yn bositif gan y byddai'n annog pobl i deithio'n llesol i'r ysgol ac oddi yno a chreu Bro actif ac iach.

Yr Iaith Gymraeg – gallai diffyg gwasanaethau bysiau ysgol lle mae taliadau am docynnau gael effaith negyddol wrth i fynediad i addysg gael ei leihau. Fodd bynnag, gallai'r effaith ar y disgyblion hyn fod yn bositif gan y byddai'n annog pobl i deithio'n llesol i'r ysgol ac oddi yno a chreu Bro actif ac iach.

8. Monitro'r effaith barhaus

Dyddiad y byddwch yn monitro'r cynnydd

Dd/B

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mesurau y byddwch yn eu monitro

Dd/B

Dyddiad y byddwch yn adolygu'r cynnig a weithredwyd a'i effaith

Dd/B

9. Camau pellach o ganlyniad i'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb

Canlyniadau Posibl	Nodwch pa un sy'n berthnasol
Dim newid mawr	le
Addasu'r polisi	
Parhau â'r polisi	
Rhoi diwedd ar y polisi a'i waredu	

10. Canlyniadau a Chamau Gweithredu

Camau a argymhellir i'r uwch dîm rheoli

Tynnu cymorth ariannol yn ôl ar gyfer gwasanaethau trafndiaeth ysgol lle mae taliadau am docynnau fel y nodir yn

Yr Adroddiad Cabinet

Canlyniad yn dilyn ystyriaeth ffurfiol o'r cynnig gan yr uwch dîm rheoli

11. Nodyn Pwysig

Pan fyddwch wedi nodi effeithiau, mae'n rhaid i chi adrodd ar hyn yn eich adroddiad Cabinet wrth geisio cymeradwyaeth am eich cynnig.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

12. Cyhoeddi

Ble byddwch chi'n cyhoeddi eich cynnig wedi'i gymeradwyo a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ffurfio rhan o adroddiad y Cabinet a fydd yn cael ei gyflwyno a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Os ceir cytundeb ar y cynnig, bydd gohebiaeth yn mynd allan i ysgolion, rhieni/gofalwyr (drwy parentmail) a bydd yn cael ei chyhoeddi ar y dudalen we Trafnidiaeth Ysgol.

Mae'n rhaid i chi anfon copi o'ch cynnig cymeradwy a'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb i Tim Greaves, Cydlynnydd Cydraddoldeb, i'w gyhoeddi ar y tudalennau cydraddoldeb ar wefan Bro Morgannwg.

13. Awdurdod

Cymeradwywyd gan (enw)	Emma Reed
Teitl y Swydd (uwch reolwr)	Pennaeth Gwasanaeth Cymdogaeth a Thrafnidiaeth
Dyddiad cymeradwyo	7 ^{fed} Ionawr 2019
Dyddiad adolygu	Yn dilyn ymgynghoriad - Mehefin 2019